# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **13 CHWEFROR 2012** |
| TEITL | **CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2012/13** |
| PWRPAS | **CYFLWYNO CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT AR GYFER Y FLWYDDYN 1 EBRILL 2012 - 31 MAWRTH 2013** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **CYMERADWYO'R CYNLLUN YN YR ATODIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynir cynllun drafft o waith Archwilio Mewnol am y flwyddyn ariannol 2012/13 (yn yr Atodiad) er sylwadaeth a chymeradwyaeth gan y Pwyllgor Archwilio.

1.2 Mae Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2006 yn datgan (paragraff 7.2.4):

"Dylai'r pwyllgor archwilio gymeradwyo, ond nid cyfeirio, y cynllun archwilio."

1.3 Mae gweddill yr adroddiad yma'n egluro'r ffactorau a ystyriwyd a'r broses dechnegol a ddefnyddiwyd i gyrraedd at y cynllun a gyflwynir i'r Pwyllgor.

## 2. STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL

2.1 Cyflwynir Strategaeth Archwilio Mewnol 2012-2015 i'r Pwyllgor fel eitem ar wahân. Y strategaeth yma sydd yn sail i waith Archwilio Mewnol am y cyfnod dan sylw, ac mae'n esbonio sut y bydd gwaith Archwilio Mewnol yn cynnig sicrwydd am y rheolaethau mewnol sydd yn eu lle o fewn Cyngor Gwynedd.

2.2 Y Strategaeth Archwilio Mewnol sydd yn rhoi esboniad o sut bydd gwaith Archwilio Mewnol yn cael ei gynllunio am y cyfnod dan sylw, ac yn esbonio sut bydd yn cynorthwyo'r Cyngor i wella er lles y dinesydd. Mae hefyd yn amlinellu'r adnoddau y disgwylir y bydd ar gael iddo, ac yn datgan y rhagolygon o safbwynt cydweithio ag eraill.

## 3. ADNODDAU SYDD AR GAEL

3.1 Ar sail dadansoddi'r adnoddau staffio sydd ar gael, gan gynnwys ystyried cyllidebau rhesymol ar gyfer gweithgareddau "di-gynnyrch" megis gwyliau, salwch, rheolaeth a chyfarfodydd, rhagwelir y bydd oddeutu 1,360 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i gwblhau'r cynllun archwilio. Mae hyn ar ôl ystyried y darpariaethau canlynol:

- Darpariaeth ar gyfer cyngor ar reolaethau a phriodoldeb — 76 diwrnod
- Darpariaeth ar gyfer gwaith ymatebol — 140 diwrnod
- Darpariaeth ar gyfer dilyniant — 80 diwrnod

3.2 Mae'r dyddiau hyn yn adlewyrchiad o'r hyn sydd wedi profi'n angenrheidiol yn ymarferol mewn blynyddoedd diweddar.

## 4. CYNLLUN ARCHWILIO GWEITHREDOL

4.1 Mae'r Strategaeth yn rhoi disgrifiad manwl o'r camau a ddilynwyd i greu cynllun archwilio gweithredol ar gyfer 2012/13

4.1.1 Fel cam cyntaf, rhoddir ystyriaeth i faterion sydd rhai eu cynnwys yn y cynllun pob blwyddyn, sef:

- Adolygiad o Reolaethau Allweddol y Prif Systemau Ariannol (yn unol â chytundeb gyda Swyddfa Archwilio Cymru)
- Materion Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Archwiliadau sydd yn angenrheidiol oherwydd amodau ariannu
- Meysydd o Wendidau Rheolaeth cyson sydd wedi eu hadnabod
- Adolygiadau ar sail thema yn sefydliadau'r Cyngor

4.1.2 Wedyn rhoddir ystyriaeth i archwiliadau eraill sydd angen cynllunio amdanynt. Defnyddir trefn systematig i gynnal asesiad anghenion archwilio ac adnabod meysydd i'w harchwilio:

1. Asesu unrhyw waith pellach (yn ychwanegol â'r profion ar y rheolaethau allweddol) ar y prif systemau ariannol
2. Ystyried cynnwys y Cynllun Tair Blynedd, a risgiau i'r prosiectau sydd ynddo
3. Dadansoddi Cofrestrau Risg adrannol a thraws gyngor
4. Cynnwys unrhyw o faterion risg sydd wedi eu hadnabod gan, neu wedi dod i sylw, Archwilio Mewnol
5. Adnabod grantiau i'w hadolygu
6. Dadansoddi cyllidebau a chyfrifon am feysydd pellach
7. Ystyried datblygiadau newydd pellach (e.e. cynlluniau cydweithio) a phartneriaethau

4.2 Mae'r cynllun archwilio drafft ar gyfer 2012/13 sy'n ganlyniad i'r gwaith yma wedi ei gynnwys yn yr Atodiad.

4.3 Bwriedir cynnal trafodaethau gyda'r penaethiaid adran a rheolwyr perthnasol cyn cychwyn ar yr archwiliadau hyn. Lle'n briodol, bydd eu hawgrymiadau yn cael eu hymgorffori yn y cynllun terfynol.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Cynllun Archwilio drafft ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2012 i 31 Mawrth 2013, yn ddarostyngedig i fân addasiadau yn deillio o drafodaethau pellach gyda swyddogion.

# Cynllun Archwilio Mewnol Drafft 2012/13

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | |
| | Defnydd Ynni | **20.00** |
| | Swyddogaethau Rheolwyr Safle | **20.00** |
| | Cyfrannu at baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol | **10.00** |
| | Cyn-stoc Tai - Arian Dargadw | **5.00** |
| | Rheoli Contractau - Academi Hwylio | **10.00** |
| | Rheoli Contractau - Ysgol y Groeslon | **10.00** |
| | Rheoli Contractau - Adfywio Canol Blaenau Ffestiniog | **10.00** |
| | Grantiau (Grwp Amgylchedd) | **30.00** |
| | Cofnodi a Rheoli Gwyliau | **25.00** |
| | Prydlondeb Taliadau - Effeithlonrwydd Tracio Anfonebau | **10.00** |
| | Cyllidebau Lleol | **10.00** |
| | Cardiau Credyd Barclaycard | **14.00** |
| | Cytundeb Canlyniadau | **20.00** |
| **ADDYSG** | | |
| **Adnoddau** | | |
| | Grant Estyniad Rhaglen Datblygu Meddwl ac Asesu ar Gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru | **6.00** |
| | Grant Blas am Oes | **10.00** |
| | Grant y Fenter Brecwastau Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd | **8.00** |
| | Grant Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion | **10.00** |
| | Grant Ffocws Gymunedol | **10.00** |
| | Rheoli cyllidebau cynnal adeiladau Ysgolion Uwchradd - gwerth am arian | **10.00** |
| **Ar draws yr adran** | | |
| | Penodi Ymgynghorwyr Rheoli, Adran Addysg | **10.00** |
| **Disgyblion a chynhwysiad** | | |
| | Gwasanaeth Llefrith i Ysgolion | **10.00** |
| **Ysgolion** | | |
| | Penodiadau Llanw | **15.00** |
| | Ysgolion Cynradd - gweithredu toriadau | **20.00** |
| | Ysgolion Cynradd - Diogelwch Gwybodaeth | **20.00** |
| | Ysgolion Cynradd - Lwfansau Athrawon | **20.00** |
| **ADNODDAU DYNOL** | | |
| **Hyfforddiant** | | |
| | Defnydd o Cetis - CALMS | **10.00** |
| | Costau a Chytundebau Hyfforddiant Proffesiynol | **20.00** |
| **Uned Cefnogol** | | |
| | Gweinyddu Benthyciadau Car | **10.00** |
| | Recriwtio - Profion Hunaniaeth | **15.00** |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Dyddiau |
|---|---|---|
| **ASIANTAETH CEFNFFYRDD GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU** | | |
| | Asiantaeth Cefnffyrdd - anfonebau rhwng cynghorau | **15.00** |
| **CYLLID** | | |
| **Archwilio a Risg** | | |
| | Rheoli Risg Corfforaethol | **25.00** |
| **Ariannol** | | |
| | System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **10.00** |
| | System eGaffael | **20.00** |
| | System Taliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **10.00** |
| **Cyfrifeg** | | |
| | Prif System Gyfrifo - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **10.00** |
| | Prif System Gyfrifo - Project Uwchraddio | **15.00** |
| **Pensiynau a Chyflogau** | | |
| | Cyflogau - rhediadau BACS | **5.00** |
| | System Gyflogau - Adroddiadau Eithriad | **5.00** |
| | System Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **10.00** |
| | System Gyflogau - Paramedrau ac Algorithmau | **15.00** |
| | System Gyflogau - Didyniadau Treth ac Yswiriant Cenedlaethol | **15.00** |
| | Cyflogau Gofalwyr Cartref - Rhyngwyneb Cyborg - CACI | **10.00** |
| **Refeniw** | | |
| | System paye.net | **10.00** |
| | Derbyn incwm mewn swyddfeydd | **15.00** |
| | Budd-daliadau Dewisol | **15.00** |
| | System Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **10.00** |
| | Systemau Trethiant - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **10.00** |
| **DARPARU A HAMDDEN** | | |
| **Cefnogaeth Busnes a Gweinyddiaeth** | | |
| | Sicrwydd Ansawdd Data a Gwybodaeth | **20.00** |
| **Glanhau a Gofalwyr Adeiladau** | | |
| | Goruchwyliaeth Glanhawyr a Gofalwyr | **15.00** |
| **Preswyl a Dydd** | | |
| | Tai gyda Chefnogaeth - Cyfrifon Imprest ac Incwm | **20.00** |
| | Prosiect Rhesymoli Darpariaeth Anabledd Dysgu | **10.00** |
| **DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL** | | |
| **Democratiaeth** | | |
| | Cyfarpar gan Cyn-aelodau | **15.00** |
| | Trefniadau TG i aelodau | **15.00** |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | |
| **Adfywio Cymunedol** | | |
| | Cynllun Genesis | **15.00** |
| | Prosiect Llwybr Cyflogi Prentisiaid Ifanc | **15.00** |
| | Cynllun Taith i Waith | **10.00** |

| | | |
|---|---|---|
| | Cymunedau'n Gyntaf | **20.00** |
| **Ieuenctid** | | |
| | Clybiau Ieuenctid | **10.00** |
| **Morwrol a Pharciau Gwledig** | | |
| | Trefniadau Trosglwyddo Parc Gwledig Glynllifon | **10.00** |
| **Sgiliau a mentergarwch** | | |
| | Llwyddo'n Lleol | **20.00** |
| **Strategaeth a Datblygu** | | |
| | Grantiau Clybiau Ieuenctid - Grant Refeniw | **5.00** |

**GOFAL CWSMER**

| | | |
|---|---|---|
| **Gwybodaeth** | | |
| | Datblygiad EDRMS | **15.00** |
| **Technoleg Gwybodaeth** | | |
| | Rheoli Newid | **15.00** |
| | Cleiant Tenau | **20.00** |
| | Cydgyfeiriant Rhwydwaith | **20.00** |
| **Tir ac Eiddo'r Cyngor** | | |
| | Cynllun Rheoli Asedau | **30.00** |
| | Trefniadau Gwarchod rhag Legionella | **20.00** |

**GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

| | | |
|---|---|---|
| **Ar draws yr adran** | | |
| | Partneriaeth Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol | **20.00** |
| | Tai Gofal Ychwanegol | **20.00** |
| | Mesurau Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol - Cywirdeb Data Craidd | **25.00** |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwireddu Arbedion | **20.00** |
| | Comisiynu ar y Cyd gyda BILIPBC | **25.00** |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Diogelwch Ffeiliau a Gwybodaeth | **20.00** |
| | Cyllid Cleientau - Bancio Rhyngrwyd | **10.00** |
| | Uned Cefnogi Systemau Gofal | **10.00** |
| **Busnes** | | |
| | Gwasanaethau Cymdeithasol - Rheolaeth dros wasanaethau wedi eu hallanoli | **20.00** |
| **Oedolion** | | |
| | Adolygu Pecynnau Gofal Anabledd Dysgu | **15.00** |
| **Plant a Theuluoedd** | | |
| | Llety i Bobl Ifanc yn gadael gofal | **15.00** |
| | Plant - Lleoliadau All-Sirol | **20.00** |

**PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

| | | |
|---|---|---|
| **Fflyd** | | |
| | Gweithdai - Goruchwyliaeth Iechyd a Diogelwch | **10.00** |
| **Gwaith Bwrdeistrefol** | | |
| | Glanhau Strydoedd | **15.00** |
| **Gwaith Priffyrdd** | | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gweithfeydd - Cytundeb A55 | **25.00** |
| **Rheoli Gwastraff a Strydoedd** | | |
| | Cynllun GwyriAD | **20.00** |
| **RHEOLEIDDIO** | | |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | | |
| | Safonau Masnach | **20.00** |
| **Trafnidiaeth a Gofal Stryd** | | |
| | Prosiect Pont Briwet | **10.00** |
| | Partneriaeth TraCC | **15.00** |
| | Cludiant Cymunedol | **20.00** |
| **STRATEGOL A GWELLA** | | |
| **Perfformiad a Chraffu** | | |
| | Gwireddu Prosiectau Arbed | **30.00** |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | |
| **Peirianneg a Rheolaeth Adeiladu** | | |
| | Cymhariaeth Cyfrifon Terfynol a Tendrau Gwreiddiol | **10.00** |
| | Penodi Contractwyr Peirianyddol | **20.00** |
| | Pontydd | **10.00** |
| | | **1,368.00** |